POLISI A STRATEGAETH

# Paratoi Cymru ar gyfer Cludo Anifeiliaid Anwes a Da Byw wedi Brexit

Mae'n rhaid i berchnogion anifeiliaid anwes ac allforwyr ofyn cyngor a chwblhau'r gwaith papur angenrheidiol i gludo eu hanifeiliaid i'r Undeb Ewropeaidd wedi Brexit, yn ôl Prif Filfeddyg Cymru.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 26 Medi 2019

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 30 Hydref 2019

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/paratoi-cymru-ar-gyfer-cludo-anifeiliaid-anwes-a-da-byw-wedi-brexit-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


**Teithio gydag anifeiliaid anwes**

**Cludo da byw**

**Gwybodaeth ddefnyddiol**



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/paratoi-cymru-ar-gyfer-cludo-anifeiliaid-anwes-a-da-byw-wedi-brexit-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae yr Athro Christianne Glossop, sy'n gyfrifol am y polisi iechyd anifeiliaid a lles yng Nghymru, yn pwysleisio'r angen i berchnogion anifeiliaid ddilyn yr holl wiriadau cyfreithiol angenrheidiol wrth fynd â'u hanifeiliaid anwes a'u da byw dramor:

> “ Os ydych yn dewis anfon neu fynd ag anifail dramor, yna mae'n rhaid ichi ystyried y risgiau a'r hyn sy'n ymarferol, ac yn bwysicaf oll, ofynion cyfreithiol symud yr anifail.
>
> “ Mae cyfreithiau ar gael i ddiogelu iechyd y wlad y mae anifail yn ei gyrraedd, ac mae'n rhaid ichi hefyd ystyried iechyd y wlad y mae'r anifail yn dychwelyd iddi os bydd yn gwneud hynny. ”

## Teithio gydag anifeiliaid anwes

Gan ei bod yn parhau i fod yn aelod o'r UE, mae'r DU ar hyn o bryd yn defnyddio'r **Cynllun Teithio Anifeiliaid Anwes**, sy'n caniatáu i'w dinasyddion gludo eu cŵn, cathod a'u ffuredau i'r UE (a rhai gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE) a'u dychwelyd i'r DU heb fod angen cwarantin.

Meddai Christianne:

> “ Pe byddem mewn sefyllfa o Brexit “heb gytundeb. Yna, y diwrnod wedi inni ymadael â'r UE, ni fydd Pasbort Anifeiliaid Anwes yr UE, sy'n dilysu statws iechyd a brechu anifail, bellach yn ddilys ar gyfer cael mynd i’r UE.
>
> “ Byddai felly'n cymryd o leiaf pedwar mis i baratoi anifail anwes, o ran brechu a'r holl waith papur sydd ei angen iddo deithio i, dyweder Ffrainc neu'r Almaen. ”

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/paratoi-cymru-ar-gyfer-cludo-anifeiliaid-anwes-a-da-byw-wedi-brexit-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae Christianne yn tynnu sylw at y ffaith bod angen i berchnogion anifeiliaid anwes ystyried y cyfnod hwn wrth gynllunio i symud eu hanifeiliaid anwes allan o'r DU ac yn ôl dros y misoedd nesaf:

> “ Os oes gennych wyliau ar y gweill ychydig cyn i ni adael yr UE, gallwch deithio gyda'ch anifail anwes i wledydd yn yr UE yn eithaf cyfreithiol o dan y Cynllun Teithio Anifeiliaid Anwes.
>
> “ Os byddwch y tu allan i’r wlad pan fydd y DU yn ymadael â’r UE, bydd Pasport Anifail Anwes a roddwyd yn yr UE neu’r DU cyn Brexit yn parhau’n ddilys ar gyfer dod yn ôl i mewn i’r DU.
>
> “ Bydd gan pob milfeddyg anifeiliaid anwes yr holl wybodaeth sydd ei hangen, a bydd modd iddynt eich arwain wrth iddynt gymryd eich anifail drwy'r broses honno. ”

**Gallwch weld yr wybodaeth ddiweddaraf am deithio gydag anifail anwes yma**.

# Cludo da byw

Er na fydd unrhyw newidiadau i statws iechyd na bwyd yn y DU yn union wedi Brexit, bydd busnesau sy'n masnachu da byw a chynnyrch sy'n dod o anifeiliaid gyda'r UE yn gweld newidiadau sylweddol i'r broses allforio.

> “ Nid yw statws iechyd poblogaeth da byw y DU yn mynd i newid dros nos. Felly mae’n rhesymol y bydd gennym ni statws iechyd cyfatebol ar Ddiwrnod Un.
>
> “ Ond bydd lefel y gwiriadau milfeddygol a'r ardystiadau fydd eu hangen i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/paratoi-cymru-ar-gyfer-cludo-anifeiliaid-anwes-a-da-byw-wedi-brexit-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

> allforio anifeiliaid yn llawer mwy llym. ”

Y newid pwysicaf i fusnesau fydd y Dystysgrif Iechyd Allforio bresennol, y mae'n rhaid i filfeddyg ei chyhoeddi cyn y gall da byw gyrraedd yr UE.

> “ Bydd y Dystysgrif Iechyd Allforio ar gyfer pob llwyth bellach. Felly os ydych yn anfon ŵyn i dair cyrchfan wahanol, yna byddai angen tri set o dystysgrifau. Os ydych yn anfon o wahanol ffermydd, byddai angen tystysgrifau ar wahân arnoch eto.
>
> “ Rydyn ni wedi gwneud yn siŵr bod 87 o filfeddygon ychwanegol yn cael eu hyfforddi yng Nghymru i gynhyrchu'r tystysgrifau ar gyfer allforio cynnyrch anifeiliaid, gan ein bod yn rhagweld y bydd cynnydd sylweddol. ”

## Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae gan wefan Llywodraeth Cymru Paratoi Cymru wybodaeth ar gyfer y rhai hynny sydd am gludo eu hanifeiliaid anwes i'r UE yn dilyn Brexit, yn ogystal ag ar gyfer diwydiannau sy'n masnachu da byw a chynnyrch sy'n dod o anifeiliaid.

Yn y ddwy sefyllfa, mae Christianne yn awgrymu sicrhau bod gennych yr wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru, ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), fel y caiff ei gyhoeddi.

> “ Peidiwch â thrafod hyn gyda'ch cymydog. Ewch i ffynhonnell y cyngor, gan gadw golwg ar bethau, gan eu bod yn newid. ”

Caiff Paratoi Cymru ei diweddaru yn rheolaidd, ac mae'n cynnwys ffynonellau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/paratoi-cymru-ar-gyfer-cludo-anifeiliaid-anwes-a-da-byw-wedi-brexit-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

perthnasol megis Pecyn Cymorth Brexit, sy'n mesur pa mor barod yw busnesau ar gyfer Brexit.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi diweddariadau pellach ar sut y gall busnesau baratoi ar gyfer Brexit, gan gynnwys Gwlad a bwletinau Pysgodfeydd a Brexit, yn ogystal â Cyswllt Ffermio a chylchlythyrau Busnes Cymru.

Mae Christianne yn cydnabod bod dilyn y camau newydd hyn yn heriol, ond eu bod yn hanfodol i gynnal parhad busnes, ac i gludo anifeiliaid anwes:

> “ Yn gyntaf, mae angen i bobl ystyried yr hyn y byddant ei angen o bosibl. Os ydynt yn allforio ar hyn o bryd neu'n masnachu gyda'r UE, yna dylai hynny fod yn rhybudd iddynt y bydd angen iddynt wneud cynllun nawr.
>
> “ Os ydynt yn bwriadu mynd dramor gyda'u hanifeiliaid, mae angen iddynt ystyried hynny nawr.
>
> “ Mae angen i bobl siarad â'u llawfeddygon eu hunain - dwi'n credu mai dyna'r peth callaf i ddweud. ”

Mae angen ichi wybod mwy am yr hyn y bydd yn rhaid i chi, fel perchennog anifail anwes, ei wneud drwy fynd i'r tudalennau gwe hyn:

- **Paratoi Cymru ar gyfer cludo anifeiliaid anwes a da byw wedi Brexit | LLYW.CYMRU**
- **DEFRA**

Am ragor o wybodaeth am allforio da byw, efallai y byddai ein herthygl ar y sector ffermio yn ddefnyddiol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/paratoi-cymru-ar-gyfer-cludo-anifeiliaid-anwes-a-da-byw-wedi-brexit-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/paratoi-cymru-ar-gyfer-cludo-anifeiliaid-anwes-a-da-byw-wedi-brexit-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.